# PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Gwener 7 Gorffennaf 2000

**Amser:** 9.30am i 12.30pm

**Venue:** Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pl

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| (Cadeirydd ar gyfer eitemau 1 a 2) | |
| Jenny Randerson | Caerdydd Canolog |
| (Cadeirydd ar gyfer eitemau 4,5,6 a 7) | |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| David Davies | Trefynwy |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |

| | |
|---|---|
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Huw Lewis | Merthyr Tydfil a Rhymni |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Cyng John Thompson | Cadeirydd, Partneriaeth Dwyrain Cymru |
| Cyng Marion Drake | Dirprwy Gadeirydd, Partneriaeth Dwyrain Cymru |
| Jeff Andrews | Pennaeth Gwasanaeth Datblygu a Materion Ewropeaidd, Cyngor Sir Caerdydd |
| Graham Davey | Cyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Powys |
| Carys Wynne | Awdurdod Datblygu Cymru |

| | |
|---|---|
| Phil Fiander | Is-adran Materion Ewropeaidd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Francis Cairns | Is-adran Materion Ewropeaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Peter Fullerton | Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru |
| Lynda Attwell | Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru |

*Yr Ysgrifenyddiaeth:*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i Bont-y-pl a diolchodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am gael defnyddio eu cyfleusterau. Dywedodd y byddai'n ymddiswyddo fel Cadeirydd yn ystod y cyfarfod ac iddi fod yn fraint ac yn bleser cael Cadeirio'r Pwyllgor yn ystod blwyddyn gyntaf ei fodolaeth. Diolchodd i'r Aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dywedodd y gobeithiai y byddai'r Pwyllgor yn mynd o nerth i nerth o dan y Cadeirydd newydd.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rosemary Butler,

Jane Davidson, Ron Davies, Jane Hutt, Dai Lloyd a Rhodri Morgan.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin: SEWR-03-00 (min)**

3. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin.

4. Nodwyd na sicrhawyd bod yr atebion gan Ysgrifenyddion y Cynulliad i gwestiynau'r sesiwn hawl i holi ar 9 Mehefin ar gael i'r Pwyllgor eto. Cadarnhaodd y Clerc y câi'r holl atebion eu hanfon at yr Aelodau cyn gynted ag y byddent wedi'u derbyn.

**Eitem 3: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor**

5. Gwahoddodd Carwyn Jones enwebiadau i gymryd drosodd fel Cadeirydd. Jenny Randerson oedd yr unig un a enwebwyd, ac felly, fe'i hetholwyd yn Gadeirydd i weithredu ar unwaith.

6. Diolchodd Jenny Randerson i'r Pwyllgor am ei hethol yn Gadeirydd. Mynegodd ei diolch hefyd i Carwyn Jones a oedd wedi dangos ei afael sicr fel Cadeirydd yn ystod cyfnod arloesol y Pwyllgor.

7. Ar bwynt o drefn, dywedodd Alun Cairns fod yr Aelodau yn gwerthfawrogi'r croeso a estynnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, ond gresynodd nad oedd y dr a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod yn dod o Gymru. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelod lleol o'r Cynulliad o bosibl am dynnu sylw'r Cyngor at hyn.

**Eitem 4: Rhaglen Amcan 2 a Rhaglen Drosiannol Dwyrain Cymru:**

**Cyflwyniad gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru**

8. Yn y rhagarweiniad i'r cyflwyniad, dywedodd y Cyng Marion Drake fod Partneriaeth Dwyrain Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd o bartneriaeth gref tuag at raglen Amcan 2, gyda bron wythdeg o sefydliadau yn cael eu cynrychioli yn y Bartneriaeth. Lluniwyd y Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft gan y Bartneriaeth yn sgîl ymarfer ymgynghorol ym mis Chwefror a mis Mawrth. Gwnaeth y Bartneriaeth gynrychioliadau eisoes i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a thrafodwyd y Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft mewn sesiwn lawn o'r Cynulliad Cenedlaethol.

9. Amlinellodd Jeff Andrews rôl Partneriaeth Dwyrain Cymru a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Eglurodd nad oedd Dwyrain Cymru yn rhanbarth cydlynus yn economaidd nac yn ddaearyddol, ac roedd yr ardal yn cynnwys elfen drefol a gwledig gref. Bu'r ymagwedd bartneriaeth yn hanfodol er mwyn symud y rhaglen yn ei blaen. O'i chymharu â rhaglen Amcan 1, lle'r nod oedd codi'r Cynnyrch Domestig Crynswth, y strategaeth gyffredinol oedd cynyddu twf cyflogaeth, hybu arallgyfeirio cyffredinol a datblygu cymunedau cynaladwy. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i 'strategaeth ymadael' gan yr ystyriwyd ei bod yn bwysig cydnabod o'r dechrau y byddai'r arian yn dod i ben.

10. Dywedodd Jeff Andrews mai'r ddau prif darged dros gyfnod oes y rhaglen oedd creu 6,530 o swyddi newydd a chynorthwyo 3,290 o gofrestriadau TAW newydd. Amlinellodd y prif flaenoriaethau, sef datblygu a ehangu sylfaen y Busnesau Bach a Chanolig a hyrwyddo datblygiad gwledig cynaladwy ac adfwyio cymunedau trefol. Amlygodd y materion sy'n croes-dorri megis cyfle cyfartal, cynaladwyedd amgylcheddol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gâi eu hadlewyrchu drwy'r Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft gyfan.

11. Tua £73 miliwn oedd cost ariannu'r rhaglen Amcan 2, gan gynnwys y Rhaglen Drosiannol.

Dywedodd Jeff Andrews y byddai cyfanswm y buddsoddiad a gynhyrchwyd gan y rhaglen o leiaf ddwywaith y swm hwn.

12. Yn y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Llongyfarchwyd Partneriaeth Dwyrain Cymru gan yr Aelodau ar safon uchel y Ddogfen Rhaglennu Sengl ar gyfer rhaglen Amcan 2.

- Nodwyd y cafodd y Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft eu hanfon i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai. Ystyriwyd ei bod yn 'dderbyniadwy' gan y Comisiwn, a disgwylir y caiff ei chymeradwyo yn ffurfiol yng nghanol mis Tachwedd, yn amodol ar drafodaethau parhaus. Y gobaith yw y byddai modd ei gweithredu ddechrau 2001.

- Mewn ymateb i gwestiwn yngln a'r ymarfer ymgynghorol a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru, dywedodd Jeff Andrews y cafwyd ymateb boddhaol ar y cyfan. Bu'r ymateb o du'r sector preifat braidd yn siomedig, er bod llawer o sefydliadau perthnasol eisoes yn rhan o'r Bartneriaeth a'u bod felly o'r farn nad oedd angen ymateb. Derbyniwyd ymatebion gan y prif gyrff cynrychioliadol.

- Mynegwyd pryder nad oedd yr un o'r sefydliadau a oedd yn cymryd rhan ym Mhartneriaeth Dwyrain Cymru yn cynrychioli lleiafrifoedd ethnig yn uniongyrchol. Cydnabu Jeff Andrews y pwynt hwn a dywedodd bod ymdrechion ar y gweill i sicrhau y byddai cymunedau o leiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan.

- Roedd yr aelodau yn awyddus i'r rhaglen adlewyrchu cydbwysedd amgylcheddol. Roedd nifer o feysydd lle y byddai'n bosibl datblygu projectau a fyddai o fudd i'r amgylchedd, megis cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus neu ynni adnewyddol.

- Mynegwyd pryder bod rhywfaint o'r data ystadegol sy'n sail i'r rhaglen yn gysylltiedig â Chyfrifiad Poblogaeth 1991, ac felly bron yn ddeng mlwydd oed. Cafwyd ymholiadau hefyd yngln â'r data ar gyfer Caerdydd a Chasnewydd yn Nhablau 10 ac 11 o Adran 1 o'r Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft. Nododd Jeff Andrews mai sicrhau bod dangosyddion amddifadedd ar lefel wardiau oedd yr allwedd o ran bod yn gymwys ar gyfer statws Amcan 2. *[Nodyn y Clerc: Gweler yr Atodiad atodedig am nodyn ar yr ystadegau hyn.]*

- Awgrymwyd mai goresgyn y rhwystrau diwylliannol oedd yr her fwyaf o ran ehangu sylfaen y Busnesau Bach a Chanolig. Byddai angen gweithio gyda chymunedau lleol i newid agweddau ac annog pobl i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd.

- Y farn oedd bod potensial mawr gan Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu o ran cyfrannu at ddatblygiad gwledig, gan ddysgu llawer o brofiad y Gwyddelod yn y maes hwn.

- O gofio'r cysylltiadau agos rhwng Cymoedd De Cymru a Chaerdydd a Chasnewydd, awgrymwyd bod angen datblygu dull cydlynu ar gyfer rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 2. Dywedodd Jeff Andrews fod y bartneriaeth a sefydlwyd i reoli rhaglen Amcan 2 yng Nghaerdydd hefyd yn rheoli rhaglen Amcan 3. Ar hyn o bryd, nid oedd dull ffurfiol ar gyfer cydlynu gydag Amcan 1 ar lefel partneriaeth; roedd hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei ystyried. Yn ogystal, roedd Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru bellach yn weithredol, a byddai hyn yn cydlynu'r holl raglenni a mentrau eraill y Gymuned Ewropeaidd.

- Dywedodd Graham Davey fod y Bartneriaeth Wledig wedi cytuno yn ddiweddar bod angen cydlynu haenau gwledig y rhaglenni amrywiol, a bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cael y cyfrifoldeb o baratoi cynigion ar sut y gellid ymgymryd â hyn.

- O ran gwerthuso projectau, y farn oedd y dylai pob cynllun gael ei asesu yn erbyn meini prawf datblygu cynaladwy. Dywedodd Jeff Andrews bod angen gweithio o hyd ar y dulliau gwerthuso. Roedd yn gobeithio y byddai'n bosibl dysgu o raglen Amcan 1, ac awgrymodd y dylai pob un o'r projectau ddangos ei fod yn mynd y tu hwnt i drothwyon ansawdd penodol ar gynaladwyedd a chyfle cyfartal.

- Pwysleisiodd Jeff Andrews rôl hollbwysig hwylusyddion sy'n gweithio naill ai yn Swyddfa Gyllido Ewropeaidd Cymru neu yn y partneriaethau lleol, wrth weithredu'r rhaglen.

13. Diolchodd y Cadeirydd i Bartneriaeth Dwyrain Cymru am eu cyflwyniad ac am ateb ymholiadau'r Aelodau.

**Eitem 5: Sesiwn hawl i holi**

14. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd. Dywedodd y byddai'n trefnu i bob cwestiwn dderbyn ateb yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol.

**Eitem 6: Strategaeth weithredu ar gyfer Cymoedd De Cymru: SEWR-04-00 (p.1)**

15. Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd Peter Fullerton fod yr ymrwymiad i baratoi cynlluniau gweithredu drafft ar gyfer Cymoedd De Cymru yn deillio o'r ddadl yn y sesiwn lawn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Roedd y cynlluniau gweithredu yn cwmpasu datblygu economaidd, datblygu cymunedol, hyfforddiant, trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd a'r amgylchedd. Cafodd y cynlluniau drafft cychwynnol ar gyfer pob maes pwnc eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad. Ble bynnag y bo'n bosibl, cysylltwyd y gwaith â *betterwales.com,*

cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol.

16. Diben y papur oedd ceisio barn y Pwyllgor cyn cyflwyno'r cynlluniau gweithredu amrywiol i'r pwyllgorau pwnc perthnasol yn nhymor yr hydref. Yn unol â'r cynnig a gymeradwywyd, byddid yn ymgynghori â Chyngor Partneriaeth y Sector Busnes, Cyngor Partneriaeth cysgodol y Sector Gwirfoddol a Chyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

17. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Croesawodd yr Aelodau y broses o ddatblygu strategaeth gyda chamau a dargedwyd i fynd i'r afael â phroblemau'r Cymoedd. Y farn oedd bod angen datblygu'r strategaeth i adlewyrchu mwy o ffocws fyth ar y Cymoedd.

- O ran datblygu economaidd, nodwyd bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn gweithio i ddatblygu Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a fyddai'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol. Byddai angen i strategaeth weithredu'r Cymoedd fod yn gyson â'r strategaeth gyffredinol hon.

  • Awgrymwyd y dylai'r strategaeth weithredu ganolbwyntio datblygiad economaidd ar Flaenau'r Cymoedd, lle roedd angen cyfleoedd cyflogi fwyaf. Pe câi'r ymagwedd hon ei mabwysiadu, y farn oedd y byddai'r manteision economaidd yn lledu drwy'r Cymoedd.

- Nodwyd bod yr economi cymdeithasol yn darparu cyfran lai o gyflogaeth yng Nghymru nag mewn ngwledydd eraill. Awgrymwyd y dylid defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i ysgogi'r broses o ddatblygu cyfleoedd datblygu yn y sector hwn.

- Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r strategaeth weithredu amlygu potensial ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd.

- Awgrymwyd y dylid mabwysiadu ymagwedd drylwyr o ran monitro a gwerthuso projectau a gynorthwyir gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Dylai'r gwaith o fonitro'r projectau archwilio sut y câi'r polisïau cyfle cyfartal eu gweithredu, a dylai'r gwerthusiad gynnwys olrhain y rhai sy'n elwa ar y projectau er mwyn hwyluso asesiad o'r goblygiadau tymor hwy. Cydnabu Peter Fullerton fod y gwaith mewn llaw o fewn Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru i ddatblygu'r fframwaith ar gyfer asesu projectau.

- Mynegwyd pryder bod 35 y cant o arian Mesurau Blaenoriaeth 3 Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 (mesurau cynhwysiad cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi) wedi'i

glustnodi ar gyfer ardaloedd gwledig ac nad oedd ar gael i gymunedau ag amddifadedd amryfal. Dywedodd Peter Fullerton y byddai angen i unrhyw gymuned oedd yn cael cyfle i fanteisio ar yr arian hwn fodloni'r meini prawf o ran amddifadedd a bod ar yr ymylon.

- Nodwyd bod pob un o'r awdurdodau lleol yn ardal Amcan 1 wedi sefydlu Byrddau Partneriaeth oedd yn bodloni meini prawf y Pwyllgor Monitro cysgodol. Yn yr un modd, roedd disgwyl i bob un gyflwyno cynnig llwybr cyflym ar ddiwrnod y cyfarfod. Bydd pob un o'r Byrddau Partneriaeth yn paratoi cynllun gweithredu ffurfiol erbyn diwedd mis Medi.

- O ran datblygu cymunedol, croesawodd yr Aelodau *Cymunedau'n Gyntaf* sy'n nodi gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol am ddyfodol y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad bod y cyfnod ymgynghorol ar gyfer *Cymunedau'n Gyntaf* yn rhy hir, a bod cyfle i ddysgu o'r ymagwedd i adfywio cymunedau a fabwysiadwyd yn yr Alban. Dywedodd Peter Fullerton ei bod yn bwysig cael cysyniad *Cymunedau'n Gyntaf* yn iawn, gan ei fod yn cynrychioli arolwg tymor hir o adfywio cymunedol. Roedd rhaglenni ar waith eisoes megis *Pobl mewn Cymunedau* a oedd yn mynd i'r afael â phroblemau cymunedau difreintiedig.

- Y farn oedd bod angen targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ond gan wneud hynny mewn ffordd a oedd yn osgoi creu rhaniadau rhwng cymunedau. Roedd angen bod yn fwy soffistigedig o ran sut roedd targedu'r adnoddau, er mwyn mynd i'r afael â phocedi o amddifadedd ar lefel yr is-wardiau. Dywedodd Peter Fullerton y byddai'r dull o nodi ardaloedd oedd yn gymwys i gael cymorth adfywio cymunedol o dan Amcan 1 yn galluogi partneriaethau lleol i ddefnyddio eu gwybodaeth leol i dargedu ardaloedd na chawsant eu pennu gan ffiniau wardiau, er fod y Mynegai Amddifadedd yn seiliedig ar ddata ar lefel wardiau.

- O ran hyfforddiant, roedd angen ystyried natur y cyrsiau oedd ar gael a sut y gellid manteisio arnynt. Awgrymwyd y dylid meithrin ymagwedd strategol, yn debyg i'r un a fabwysiadwyd yn Iwerddon, er mwyn nodi'r sgiliau y byddai eu hangen yn yr economi ac yna gysylltu unrhyw brinder sgiliau â darpariaeth hyfforddi.

- O ran mynediad i hyfforddiant, y farn oedd bod angen symud i ffwrdd o'r dulliau ffurfiol traddodiadol a mynd ag addysg bellach allan i'r cymunedau. Roedd angen goresgyn y rhwystrau diwylliannol a dyheadol i gymryd rhan a oedd yn bodoli mewn llawer o gymunedau'r Cymoedd. Awgrymwyd y dylid ddefnyddio hyrwyddwyr a mentoriaid mewn cymunedau difreintiedig, ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd dysgu anffurfiol. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y ffaith nad oedd gofal plant ar gael yn un o'r rhwystrau arwyddocaol o ran cymryd rhan. Roedd cyfle i elwa ar brofiad rhyngwladol yn y maes hwn, yn enwedig yn Iwerddon.

- Awgrymwyd na ddylid seilio'r dulliau ariannu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch ar niferoedd myfyrwyr yn unig. Yn lle hynny, dylai'r fformiwla ddarparu cymhellion i annog darparwyr i weithio mewn cymunedau difreintiedig. Yn ogystal, mynegwyd pryder yngln â'r ffaith nad oedd arian cyfatebol ar gael ar gyfer y sector addysg bellach ac addysg uwch.

- O ran trafnidiaeth, roedd yr Aelodau yn frwd dros ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn y Cymoedd, i helpu pobl i gael mynediad i swyddi. Nodwyd y byddai hyn yn gofyn am gael cymorthdaliadau ychwanegol i'r gwasanaethau bysys a'r trenau. Roedd cefnogaeth ar gyfer ailagor y llinell rheilffordd o Lynebwy i Gasnewydd i deithwyr.

- O ran iechyd, nodwyd bod gwaith mewn llaw i ddatblygu fformiwla ar gyfer dosbarthu adnoddau i awdurdodau iechyd a oedd yn rhoi ystyriaeth i amddifadedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn debygol o gael ei gyflwyno cyn 2002-03 ac roedd angen cymryd camau yn y cyfamser i helpu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

- O ran yr amgylchedd, nododd y Pwyllgor fod strategaeth wastraff i Gymru yn cael ei pharatoi yn ystod 2001-02. Croesawodd yr ymrwymiad i gynyddu ailgylchu'n sylweddol cyn opsiynau llai cynaladwy ar gyfer gwaredu gwastraff megis tirlenwi a llosgi gwastraff. Roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn bwysig hybu'r gwaith o sefydlu diwydiannau sy'n defnyddio'r cynnyrch ailgylchu.

- Awgrymwyd y byddai modd gofyn i'r partneriaethau lleol sy'n gweithredu Amcan 1 i ystyried strategaeth weithredu ddrafft ar gyfer Cymoedd De Cymru, yn ogystal â chydlynu'r broses o'i chyflwyno yn eu hardaloedd eu hunain.

- Nid oedd yr Aelodau am i'r strategaeth weithredu fod yn ddogfen sgleiniog, ond yn hytrach yn ddogfen waith y gellid ei holrhain a'i monitro. Dywedodd Peter Fullerton fod y ddogfen yn fwy o gynllun gweithredu nag un o strategaeth. Byddai pwyllgorau pwnc yn ystyried cysylltiadau â strategaethau megis y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a materion sy'n trawsdorri megis y cynllun datblygu cynaladwy. Y bwriad oedd i fersiwn terfynol y strategaeth weithredu fod yn benodol iawn, gan osod targedau, allbynnau a dulliau cyflwyno.

- Mynegodd un Aelod ei siom nad oedd yr ystod lawn o swyddogion a fu'n cyfrannu tuag at y strategaeth weithredu ddrafft wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor. Dywedodd Peter Fullerton y byddai'r swyddogion perthnasol yn mynychu cyfarfodydd y

pwyllgorau pwnc pan fyddai agweddau penodol ar y strategaeth yn cael eu trafod.

- Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i greu'r swydd Ysgrifennydd yn y Cynulliad ar gyfer y Cymoedd. Nodwyd bod y cyfrifoldeb hwn ar hyn o bryd yn syrthio i ran Peter Law, fel rhan o'i gyfrifoldebau ar gyfer adfywio cymunedau ac adfer trefol.

- Nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o leoli cyfrifoldeb o fewn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cydlynu'r gwaith o ddatblygu trefol a gwledig.

18. Diolchodd y Cadeirydd i Peter Fullerton am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau. Dywedodd y byddai sylwadau'r Aelodau yn cael eu hadlewyrchu yn y papurau i'w cyflwyno i'r pwyllgorau pwnc yn nhymor yr hydref.

**Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

19. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 20 Hydref ac mai Glynebwy fyddai'r lleoliad tebygol. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar *Cymunedau'n Gyntaf*, gan gynnwys cyflwyniadau gan nifer o gyrff sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol. Cafwyd cais i sicrhau y byddai swyddog o'r Adran Iechyd yn bresennol yn y cyfarfod, ac i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r dull o weithredu yn yr Alban ar adfywio cymunedol.

20. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod dilynol ar 1 Rhagfyr yn cwmpasu'r Strategaethau Gwella Iechyd sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd gan yr awdurdodau iechyd yn yr ardal. Cafwyd cais i sicrhau y byddai'r cyfarfod hefyd yn derbyn adroddiad ar y gwaith sydd ar y gweill ar fformiwla ariannu newydd ar gyfer awdurdodau iechyd. Byddai'r Clerc yn ceisio nodi lleoliad addas ar gyfer y cyfarfod yn Sir Fynwy.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2000**

**ATODIAD**

**NODYN AR DABLAU 10 AC 11 O ADRAN 1 DOGFEN RHAGLENNU SENGL DDRAFFT AMCAN 2**

**Cysondeb Tabl 10 a Thabl 11**

Dengys Tabl 10 ganran y tyeidiau â phlentyn dibynnol heb unrhyw un sy’n ennill cyflog. Dengys Tabl 11 gyfran y boblogaeth sy’n gwneud cais am gymhorthdal incwm. Mae’r ddau dabl yn ystyried dau beth gwahanol er eu bod yn gysylltiedig, ac er bod cydberthynas rhwng y data yn y ddau dabl, nid oes rheswm i dybio y bydd y gwerthoedd yn union yr un fath.

Dylid ystyried sawl pwynt wrth gymharu’r ddau dabl:

- Mae Tabl 10 yn defnyddio data Cyfrifiad 1991; mae Tabl 11 yn defnyddio data 1996.

- Mae Tabl 10 yn seiliedig ar ddata ar lefel wardiau, Tabl 11 yn seiliedig ar ddata ardaloedd etholiadol.

- Mae Tabl 10 ond yn ystyried tyeidiau â phlentyn neu blant dibynnol; mae Tabl 11 yn ystyried y boblogaeth gyfan.

**Effaith y boblogaeth myfyrwyr ar y ffigurau**

Mae gan wahanol arolygon ddulliau gwahanol o ystyried myfyrwyr. Mae’r Cyfrifiad Poblogaeth a gynhelir bob deng mlynedd yn datgan y dylai myfyrwyr nodi eu cyfeiriad cartref arferol ar y ffurflen. Golyga hyn na ddylai myfyrwyr lurgunio canlyniadau’r Cyfrifiad, a derbyn bod ffurflenni’r Cyfrifiad yn cael eu cwblhau’n gywir.